OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2010 Rhif 3000 (Cy.249)

# DATGANOLI, CYMRU

# REFFERENDA, CYMRU

# CYNRYCHIOLAETH Y BOBL, CYMRU

## Gorchymyn Refferendwm Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Darpariaethau Deddfau'r Cynulliad) (Taliadau Swyddogion Cyfrif) 2010

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn gwneud darpariaeth am yr uchafsymiau y gellir eu hadennill am wasanaethau a threuliau swyddogion cyfrif mewn cysylltiad â'r refferendwm sydd i'w gynnal yn unol â Gorchymyn Refferendwm Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Darpariaethau Deddfau'r Cynulliad) (Cwestiwn y Refferendwm, Dyddiad y Refferendwm Etc.) 2010 ("Gorchymyn y Refferendwm").

Mae'r Gorchymyn hwn wedi ei wneud o dan erthygl 13 o Orchymyn y Refferendwm sy'n gosod darpariaeth bellach am adennill symiau am y gwasanaethau a'r treuliau hyn gan swyddogion cyfrif.

Mae erthygl 2 o'r Gorchymyn hwn yn pennu'r uchafswm cyffredinol y gellir ei adennill ar gyfer pob ardal bleidleisio yng ngholofn 4 o'r Tabl yn yr Atodlen.

Mae erthygl 3 o'r Gorchymyn hwn yn pennu na chaiff y cyfanswm y gall pob swyddog cyfrif ei adennill o ran y gwasanaethau penodedig a ddisgrifir yn erthygl 4 o'r Gorchymyn hwn fod yn fwy na'r swm a restrir ar gyfer pob ardal bleidleisio yng ngholofn 2 o'r Tabl yn yr Atodlen.

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2010 No. 3000 (W.249)

# DEVOLUTION, WALES

# REFERENDUMS, WALES

# REPRESENTATION OF THE PEOPLE, WALES

## The National Assembly for Wales Referendum (Assembly Act Provisions) (Counting Officers' Charges) Order 2010

### EXPLANATORY NOTE

*(This note is not part of the Order)*

This Order makes provision about the maximum recoverable amounts for the services and expenses of counting officers in connection with the referendum that is to be held in accordance with the National Assembly for Wales Referendum (Assembly Act Provisions) (Referendum Question, Date of Referendum Etc.) Order 2010 ("the Referendum Order").

This Order is made under article 13 of the Referendum Order which sets out further provision in respect of the recovery by counting officers of amounts for such services and expenses.

Article 2 of this order specifies the overall maximum recoverable amount for each voting area in column 4 of the Table in the Schedule.

Article 3 of this Order specifies that the total of the amount recoverable by each counting officer in respect of the specified services described in article 4 of this Order must not be more than the amount that is listed for each voting area in column 2 of the Table in the Schedule.

Mae erthygl 5 o'r Gorchymyn hwn yn pennu na chaiff y cyfanswm y gall pob swyddog cyfrif ei adennill o ran y treuliau penodedig a ddisgrifir yn erthygl 6 o'r Gorchymyn hwn fod yn fwy na'r swm a restrir ym mhob ardal bleidleisio yng ngholofn 3 o'r Tabl yn yr Atodlen.

Article 5 of this Order specifies that the total of the amount recoverable by each counting officer in respect of the specified expenses described in article 6 of this Order must not be more than the amount that is listed for each voting area in column 3 of the Table in the Schedule.

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2010 Rhif 3000 (Cy.249)

# DATGANOLI, CYMRU

# REFFERENDA, CYMRU

# CYNRYCHIOLAETH Y BOBL, CYMRU

## Gorchymyn Refferendwm Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Darpariaethau Deddfau'r Cynulliad) (Taliadau Swyddogion Cyfrif) 2010

*Gwnaed* *15 Rhagfyr 2010*

*Yn dod i rym yn unol ag erthygl 1(2)*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd gan erthygl 13(1)(b), (2) a (6) o Orchymyn Refferendwm Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Darpariaethau Deddfau'r Cynulliad) (Cwestiwn y Refferendwm, Dyddiad y Refferendwm Etc.) 2010(**1**), yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:

**Enwi, cymhwyso a chychwyn**

**1**.–(1)Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Refferendwm Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Darpariaethau Deddfau'r Cynulliad) (Taliadau Swyddogion Cyfrif) 2010 .

(2) Daw'r Gorchymyn hwn i rym drannoeth y diwrnod y'i gwneir.

(3) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran Cymru.

(**1**) O.S. 2010/2837.

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2010 No. 3000 (W.249)

# DEVOLUTION, WALES

# REFERENDUMS, WALES

# REPRESENTATION OF THE PEOPLE, WALES

## The National Assembly for Wales Referendum (Assembly Act Provisions) (Counting Officers' Charges) Order 2010

*Made* *15 December 2010*

*Coming into force in accordance with article 1(2)*

The Welsh Ministers, in exercise of the powers conferred by article 13(1)(b), (2) and (6) of the National Assembly for Wales Referendum (Assembly Act Provisions) (Referendum Question, Date of Referendum Etc.) Order 2010(**1**), make the following Order:

**Title, application and commencement**

**1**.–(1) The title of this Order is the National Assembly for Wales Referendum (Assembly Act Provisions) (Counting Officers' Charges) Order 2010.

(2) This Order comes into force on the day after the day on which it is made.

(3) This Order applies in relation to Wales.

(**1**) S.I. 2010/2837.

**Yr uchafswm adenilladwy cyffredinol**

**2**. Yr uchafswm adenilladwy cyffredinol ar gyfer ardal bleidleisio(**1**) yw'r swm a restrir yng ngholofn 4 o'r Tabl yn yr Atodlen.

**Yr uchafswm adenilladwy ar gyfer gwasanaethau penodedig**

**3**. Rhaid i gyfanswm y taliadau sy'n adenilladwy gan swyddog cyfrif(**2**)o ran y gwasanaethau o'r disgrifiad penodedig yn erthygl 4 beidio â bod yn fwy na'r swm a restrir ar gyfer pob ardal bleidleisio yng ngholofn 2 o'r Tabl yn yr Atodlen.

**4**. Dyma'r gwasanaethau penodedig–

(a) gwneud trefniadau ar gyfer y refferendwm(**3**);

(b) cyflawni swyddogaethau'r swyddog cyfrif o ran y refferendwm; a

(c) cynnal y refferendwm .

**Yr uchafswm adenilladwy ar gyfer treuliau penodedig**

**5**. Rhaid i gyfanswm y taliadau sy'n adenilladwy gan swyddog cyfrif o ran y treuliau o'r disgrifiad penodedig yn erthygl 6 beidio â bod yn fwy na'r swm a restrir ar gyfer pob ardal bleidleisio yng ngholofn 3 o'r Tabl yn yr Atodlen.

**6**. Dyma'r treuliau penodedig–

(a) penodi a thalu personau i gynorthwyo'r swyddog cyfrif (gan gynnwys personau y cyfeirir atynt yn adran 128(4) o Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000)(**4**);

(b) teithio a chynhaliaeth ar gyfer y swyddog cyfrif ac unrhyw berson y cyfeirir ato ym mharagraff (a);

(c) argraffu neu gynhyrchu papurau pleidleisio;

(**1**) Diffinnir "voting area" ("*ardal bleidleisio*") yn erthygl 2(1) o Orchymyn Refferendwm Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Darpariaethau Deddfau'r Cynulliad) (Cwestiwn y Refferendwm, Dyddiad y Refferendwm Etc.) 2010.

(**2**) Diffinnir "accounting officer" ("*swyddog cyfrif*") yn erthygl 2(1) o Orchymyn Refferendwm Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Darpariaethau Deddfau'r Cynulliad) (Cwestiwn y Refferendwm, Dyddiad y Refferendwm Etc.)2010.

(**3**) Diffinnir "the referendum" ("*y refferendwm*") yn erthygl 2(1) o Orchymyn Refferendwm Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Darpariaethau Deddfau'r Cynulliad) (Cwestiwn y Refferendwm, Dyddiad y Refferendwm Etc.) 2010.

(**4**) 2000 p.41

**Overall maximum recoverable amount**

**2**. The overall maximum recoverable amount for each voting area(**1**) is the amount listed in column 4 of the Table in the Schedule.

**Maximum recoverable amount for specified services**

**3**. The total of the charges recoverable by a counting officer(**2**) in respect of the services of the description specified in article 4 must not exceed the amount listed for each voting area in column 2 of the Table in the Schedule.

**4**. The specified services are–

(a) making arrangements for the referendum(**3**);

(b) discharging the counting officer's duties in respect of the referendum; and

(c) conducting the referendum .

**Maximum recoverable amount for specified expenses**

**5**. The total of the charges recoverable by a counting officer in respect of the expenses of the description specified in article 6 must not exceed the amount listed for each voting area in column 3 of the Table in the Schedule.

**6**. The specified expenses are–

(a) the appointment and payment of persons to assist the counting officer (including persons referred to in section 128(4) of the Political Parties, Elections and Referendums Act 2000)(**4**);

(b) travel and subsistence for the counting officer and any person referred to in paragraph (a);

(c) printing or production of ballot papers;

(**1**) "voting area" is defined in article 2(1) of the National Assembly for Wales Referendum (Assembly Act Provisions) (Referendum Question, Date of Referendum Etc.) Order 2010.

(**2**) "counting officer" is defined in article 2(1) of the National Assembly for Wales Referendum (Assembly Act Provisions) (Referendum Question, Date of Referendum Etc.) Order 2010.

(**3**) "the referendum" is defined in article 2(1) of the National Assembly for Wales Referendum (Assembly Act Provisions) (Referendum Question, Date of Referendum Etc.) Order 2010.

(**4**) 2000 c. 41.

(ch) argraffu a danfon dogfennau pleidleisio drwy'r post (gan gynnwys y papur pleidleisio drwy'r post, y datganiad pleidleisio drwy'r post, amlen y papur pleidleisio a'r brif amlen)(**1**);

(d) argraffu a danfon y cardiau pleidleisio;

(dd) argraffu a chyhoeddi hysbysiadau a dogfennau ar gyfer neu mewn cysylltiad â'r refferendwm;

(e) rhentu, gwresogi, goleuo, glanhau, addasu neu adfer (gan gynnwys atgyweirio unrhyw ddifrod a wneir i) unrhyw adeilad neu ystafell;

(f) darparu a chludo cyfarpar y mae ei angen i gynnal y refferendwm;

(ff) darparu meddalwedd a chyfarpar technoleg gwybodaeth a chyfathrebu a chostau cysylltiedig;

(g) darparu diogelwch a dulliau o storio blychau papurau pleidleisio, papurau pleidleisio a dogfennau eraill ar gyfer y refferendwm neu mewn cysylltiad ag ef;

(ng) cynnal y gwirio a'r cyfrif (gan gynnwys unrhyw ailgyfrif) ;

(h) darparu a chael hyfforddiant;

(i) deunyddiau swyddfa, postio a danfon, ffôn, argraffu, cyfieithu, bancio a chostau amrywiol; a

(j) cyflenwi copïau (neu rannau) o'r gofrestr i'w defnyddio wrth gynnal y refferendwm.

(d) printing and delivery of postal voting documents (including the postal ballot paper, postal voting statement, ballot paper envelope and covering envelope)(**1**);

(e) printing and delivery of poll cards;

(f) printing and publishing notices and documents for or in connection with the referendum;

(g) renting, heating, lighting, cleaning, adapting or restoring (including making good any damage done to) any building or room;

(h) providing and transporting equipment necessary for the conduct of the referendum;

(i) providing information and communications technology equipment and software and associated costs;

(j) providing security and storage of ballot boxes, ballot papers and other documents for or in connection with the referendum;

(k) conducting the verification and the count (including any re-count) ;

(l) providing and receiving training;

(m) stationery, postage and delivery, telephone, printing, translation, banking and miscellaneous costs; and

(n) the supply of copies of (or of parts of) the register for use in the conduct of the referendum.

*Carwyn Jones*

Y Prif Weinidog, un o Weinidogion Cymru

15 Rhagfyr 2010

First Minister, one of the Welsh Ministers

15 December 2010

(**1**) I gael ystyr "postal ballot paper" ("*papur pleidleisio drwy'r post*") gweler y diffiniad yn erthygl 2(1) o Orchymyn Refferendwm Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Darpariaethau Deddfau'r Cynulliad) (Cwestiwn y Refferendwm, Dyddiad y Refferendwm Etc.) 2010 ac i gael ystyr "ballot paper envelope" ("*amlen y papur pleidleisio*") a "covering envelope" ("*y brif amlen*") gweler paragraff 1(1) o Ran 1 o Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwnnw. Ystyr "Postal Voting Statement" ("*Datganiad Pleidleisio drwy'r Post*") yw'r ddogfen y cyfeirir ati ym mharagraff 192) o'r Rhan honno o'r Atodlen honno.

(**1**) For the meaning of "postal ballot paper" see the definition in article 2(1) of the National Assembly for Wales Referendum (Assembly Act Provisions) (Referendum Question, Date of Referendum Etc.) Order 2010 and for "ballot paper envelope" and "covering envelope" see paragraph 1(1) of Part 1 of Schedule 2 to that Order. "Postal Voting Statement" means the document referred to in paragraph 1(2) of that Part of that Schedule.

# YR ATODLEN

Erthyglau 2, 3 a 5

Uchafsymiau adenilladwy cyffredinol ac uchafsymiau adenilladwy ar gyfer gwasanaethau penodedig a threuliau penodedig ar gyfer ardaloedd pleidleisio

| *(1)*<br><br>*Ardal bleidleisio* | *(2)*<br><br>*Yr uchafswm adenilladwy ar gyfer y gwasanaethau penodedig* | *(3)*<br><br>*Yr uchafswm adenilladwy ar gyfer y treuliau penodedig* | *(4)*<br><br>*Yr uchafswm adenilladwy cyffredinol* |
|---|---|---|---|
| Abertawe | £8,736 | £310,894 | £319,630 |
| Blaenau Gwent | £2,527 | £118,317 | £120,844 |
| Bro Morgannwg | £4,397 | £181,943 | £186,340 |
| Caerdydd | £11,637 | £445,764 | £457,401 |
| Caerffili | £6,099 | £243,839 | £249,938 |
| Casnewydd | £4,899 | £191,942 | £196,841 |
| Castell-nedd Port Talbot | £5,198 | £234,912 | £240,110 |
| Ceredigion | £2,825 | £113,929 | £116,754 |
| Conwy | £4,334 | £150,944 | £155,278 |
| Gwynedd | £4,129 | £192,196 | £196,325 |
| Merthyr Tudful | £2,500 | £106,624 | £109,124 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | £4,959 | £171,286 | £176,245 |
| Powys | £4,892 | £232,094 | £236,986 |
| Rhondda Cynon Taf | £8,176 | £326,651 | £334,827 |
| Sir Benfro | £4,383 | £181,347 | £185,730 |
| Sir Ddinbych | £3,538 | £131,230 | £134,768 |
| Sir Gaerfyrddin | £6,285 | £301,501 | £307,786 |
| Sir Fynwy | £3,334 | £138,604 | £141,938 |
| Sir y Fflint | £5,493 | £187,720 | £193,213 |
| Tor-faen | £3,321 | £143,370 | £146,691 |
| Wrecsam | £4,794 | £170,547 | £175,341 |
| Ynys Môn | £2,500 | £103,421 | £105,921 |

© Hawlfraint y Goron 2011

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

## SCHEDULE

Articles 2, 3 and 5

Overall maximum recoverable amounts and maximum recoverable amounts for the specified services and the specified expenses for voting areas

| *(1)* *Voting area* | *(2)* *Maximum recoverable amount for the specified services* | *(3)* *Maximum recoverable amount for the specified expenses* | *(4)* *Overall maximum recoverable amount* |
|---|---|---|---|
| Blaenau Gwent | £2,527 | £118,317 | £120,844 |
| Bridgend | £4,959 | £171,286 | £176,245 |
| Caerphilly | £6,099 | £243,839 | £249,938 |
| Cardiff | £11,637 | £445,764 | £457,401 |
| Ceredigion | £2,825 | £113,929 | £116,754 |
| Carmarthenshire | £6,285 | £301,501 | £307,786 |
| Conwy | £4,334 | £150,944 | £155,278 |
| Denbighshire | £3,538 | £131,230 | £134,768 |
| Flintshire | £5,493 | £187,720 | £193,213 |
| Gwynedd | £4,129 | £192,196 | £196,325 |
| Isle of Anglesey | £2,500 | £103,421 | £105,921 |
| Merthyr Tydfil | £2,500 | £106,624 | £109,124 |
| Monmouthshire | £3,334 | £138,604 | £141,938 |
| Neath Port Talbot | £5,198 | £234,912 | £240,110 |
| Newport | £4,899 | £191,942 | £196,841 |
| Pembrokeshire | £4,383 | £181,347 | £185,730 |
| Powys | £4,892 | £232,094 | £236,986 |
| Rhondda Cynon Taff | £8,176 | £326,651 | £334,827 |
| Swansea | £8,736 | £310,894 | £319,630 |
| Torfaen | £3,321 | £143,370 | £146,691 |
| Vale of Glamorgan | £4,397 | £181,943 | £186,340 |
| Wrexham | £4,794 | £170,547 | £175,341 |

© Crown copyright 2011

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2010 Rhif 3000 (Cy.249)

## DATGANOLI, CYMRU

## REFFERENDA, CYMRU

## CYNRYCHIOLAETH Y BOBL, CYMRU

Gorchymyn Refferendwm Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Darpariaethau Deddfau'r Cynulliad) (Taliadau Swyddogion Cyfrif) 2010

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2010 No. 3000 (W.249)

## DEVOLUTION, WALES

## REFERENDUMS, WALES

## REPRESENTATION OF THE PEOPLE, WALES

The National Assembly for Wales Referendum (Assembly Act Provisions) (Counting Officers' Charges) Order 2010

£5.75

W792/01/11 ON